

# Teithiau'r Llywydd

## Cipolwg ar brysurdeb Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Roedd Tachwedd a Rhagfyr yn ddeufis prysur i mi gan fod y pwyllgorau Cyfundebol yn cyfarfod. Braff oedd gallu mynychu'r mwyafrif ohonynt a gweld yr holl weithgarwch sydd yn mynd ymlaen yn y Corff y tu ôl i'r llenni, fel petai. Gwelais ein bod yn perthyn i Eglwys gyfoes, amrywiol ei natur a'n bod yn ceisio ymateb i'r hyn sydd yn digwydd yn lleol ac yn ehangach yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

Mae ein dyled i'r staff, gweithwyr cyflogedig, gweinidogion a blaenoriaid ac aelodau yn amhrisiadwy a manteisiad ar y cyfle i ddiolch iddynt oll am eu gwaith diffino yn enw Crist ar hyd a lled y wlad. Mynychais gyfarfodydd o Adran Eglwys a Chymdeithas, is-bwyllgor Plant ac Ieuenctid, y Gymdeithas Hanes, yr Adran Gyhoeddi, Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant, Adran Eciwmenaidd a Byd Eang, Adran Gweinidogaethau, Grŵp Monitro'r Swyddfa a'r Ymddiriedolwyr. Methais fynychu Adran Adnoddau oherwydd profedigaeth yn y teulu. Cafwyd cyfle hefyd i drafod ein hasesiadau risg fel enwad a mynychu hyfforddiant Gwarchod Data, gan fod Deddf newydd yn dod i rym Mis Mai eleni sydd ag oblygiadau i bob cymdeithas ac elusen. Cynhaliwyd cyd gyfarfyddiad o Swyddogion Pwyllgorau Gweinidogaethau'r Sasiynau. Roedd hyn yn gyfle i rannu a chynllunio ar gyfer y dyfodol wrth i ni symud ymlaen efo'n gilydd yn obeithiol ac yn hyderus. Mynychwyd hyfforddiant hefyd ar ddiogelwch plant ac oedolion bregus. Braff a bendithiol yw cael ymuno hefyd â chyfarfod misol y Swyddogion. Cyfle i rannu, cyfle i osod cynllun gwaith yn ei le a chyfle i annog a sicrhau cyd-weithio er lles lledaeniad eglwys Crist.

Roedd Ionawr 1af yn ddiwrnod cyffrous i ni fel enwad gyda'r newid arfaethedig yn ein strwythur yn dod i rym sef bod y Parchg Meirion Morris yn Ysgrifennydd Cyffredinol gyda phwyslais gwahanol ar y gwaith a'r Parchg Ifan Roberts fel ein Prif Weinyddwr rhan amser. Cyfarfu'r grŵp polisi ym mis Ionawr i drafod amrywiol faterion o'r Sasiynau. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth trafodaethau'r grwpiau bychain a'r penderfyniadau i'w trafod yn y Gymanfa Gyffredinol.



Cafwyd cyfle hefyd i fod yn rhan o weithgor bychan dan adain yr Adran Eciwmenaidd a Byd Eang i ystyried beth yw ein cenhadaeth dramor a sut i ddatblygu ein perthynas gydag eglwys tramor i'r dyfodol.

Am dridiau ddiwedd Ionawr treuliais amser yn ymweld â rhai o'n prosiectau yn y De. Roedd yn agoriad llygaid ac yn gyfle i ddiolch am y gwaith sy'n cael ei wneud yn enw EBC er mwyn dangos cariad Crist ar waith yn y gymuned leol. Bu cyfle i ymweld â Seilo, Ystrad Mynach, yr Ystafell Fyw, Pen-rhys, Caplaniaeth Prifysgol De Cymru a Sandfields. Prosiectau gwerth chweil a chofiwn amdanynt yn ein gweddïau gan ddymuno bendith Duw ar y gwaith. Gobeithiaf ymweld â mwy o'n prosiectau yn y dyfodol agos.

Cyfnod prysur ond eto un bendithiol fu'r pedwar mis diwethaf.

Anogaf chwi i weddio dros y gwaith wrth i ni wynebu efo'n gilydd her a sialens yr oes bresennol hon. Daliwn afael yng ngobaith yr Efengyl a chofiwn wrth ymateb i alwad Crist nid yn ofer y byddwn yn llafurio yng ngwaith ein Harglwydd byw, atgyfodedig.

*Parch Brian H Jones*

### EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU Adran Ymgeiswyr ag Hyfforddiant CYDLNYDD HYFFORDDIANT CYNORTHWYOL (De Cymru)



Mae Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn ceisio unigolyn cymwys i gymell a herio unigolion i ystyried hyfforddiant er mwyn eu galluogi i wasanaethu a gweinidogaethu yn fwy effeithiol yn ein heglwysi. Bydd y Cydlynnydd Hyfforddiant Cynorthwyol yn gweithio gyda'r Cydlynnydd Hyfforddiant i sicrhau hyfforddiant rhanbarthol priodol ar gyfer ein haelodau, blaenoriaid, gweithwyr gweinidogaethol a gweinidogion.

Oriau: 7 awr yr wythnos (Rhan Amser)

Cytundeb: 3 blynedd, gyda cyfnod prawf ar ôl chwe mis  
Cyflog: £23,794 - £25,798 pro rata, (25-29 ar raddfa cyflog EBC), yn ogystal â lwfans tŷ a char (pro rata) a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

Am fwy o wybodaeth, neu am becyn cais, anfoner at y  
Parch Meirion Morris, Ysgrifennydd Cyffredinol.  
✉ ysgrifennydd.cyffredinol@ebcpcw.org.uk ☎ 02920627465

Mae gofyniad galwedigaethol yn gymwys i'r swydd hon sy'n mynnu fod yr ymgeisydd yn siarad Cymraeg ac yn Gristion.

Dyddiad Cau: 4.00 y.p. 29/03/2018